# Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd brynhawn Sadwrn y 5ed o Hydref 2024 am 4.30 yng Ngwesty'r Faenol Fawr, Bodelwyddan

**Yn Bresennol:**

Goronwy Wynne (Llywydd), Iona Evans (Cadeirydd y Gymdeithas), Hywel Madog Jones (Is-gadeirydd), Rhisiart ap Gwilym, Shelagh Fishlock, Helen Griffith, John Griffith, Anne Gwynne, Dafydd Horan, Nerys Horan, Jackie James, Gwenan Jones, Owen Jones, Mair Owens, Carys M Parry. Elizabeth Roberts, Iwan Roberts, Amanda Skull, Wil Tyler, Carwen Vaughan, Alan Williams, Philip Williams, Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion). (23)

## 1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Dywedodd Iona Evans ei bod yn falch o groesawu pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan obeithio bod yr aelodau wedi mwynhau'r ddwy daith gerdded mewn tywydd mor braf.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eirian Davies, Gareth Wyn Jones (Ysgrifennydd), Dafydd Lewis, Haf Meredydd, Gwyn Roberts a Margaret Roberts (Trysorydd).

## 3. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 2022

Cynigiodd Philip Williams ac eiliodd Amanda Skull dderbyn cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llanelli ar y 21ain o Hydref 2023 yn gofnod cywir. Cytunwyd drwy ddangos dwylo.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Dim

## 5. ETHOL LLYWYDD

Cynigiodd Iwan Roberts ac eiliodd Hywel Madog Jones ail-ethol Dr. Goronwy Wynne yn Llywydd y Gymdeithas. Cytunwyd yn unfrydol.

Cymerodd Dr Wynne y gadair a diolchodd i'r aelodau am ymddiried ynddo i lywio'r Gymdeithas unwaith eto. Dywedodd ei fod wedi dilyn hanes Cymdeithas Edward Llwyd, er nad yw'n ymuno â'r teithiau cerdded bellach. Diolchodd i bawb a oedd wedi bod yn gweithio i gynnal y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn enwedig i Iona Evans.

## 6. ETHOL IS-LYWYDDION

Ail-etholwyd Duncan Brown a Twm Elias yn Is-lywyddion drwy ddangos dwylo. Cofiodd y Llywydd at Duncan gan ddweud ei fod yn falch o glywed ei fod yn gwella ar ôl problemau iechyd.

## 7. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH: ETHOL SWYDDOGION

i. Cadeirydd: Dywedodd Iona Evans ei bod wedi dymuno gadael y swydd o Gadeirydd ers ychydig o flynyddoedd ond na chanfuwyd olynydd ymhlith aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Esboniodd y byddai'n fodlon gwasanaethu yn 2024/25 petai'n bosibl i ganfod Is-gadeirydd a fyddai'n fodlon camu i fyny'r flwyddyn wedyn

Ailetholwyd Iona Evans yn Gadeirydd drwy ddangos dwylo.

ii. Is-gadeirydd: Esboniwyd bod Hywel Madog Jones wedi penderfynu camu i'r neilltu fel Is-gadeirydd er mwyn hwyluso olyniaeth i'r Gadeiryddiaeth ond ei fod yn fodlon parhau i lywio'r Pwyllgor Marchnata a datblygu'r wefan,

Apeliodd y Llywydd am enwebiad, gan roi rhybudd y gallai dyfodol y Gymdeithas fod mewn perygl yn absenoldeb aelodau yn fodlon ymgymryd â'r fath swyddi.

Ni chafwyd enw a gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith geisio canfod a chyfethol Is-gadeirydd,

iii. Trysorydd: Esboniwyd i'r Pwyllgor Gwaith gyfethol Amanda Skull yn Drysorydd, yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y llynedd. Dywedwyd ei bod yn y broses o gymryd lle Margaret Roberts (gweler Adroddiad y Trysorydd). Ailetholwyd Amanda drwy ddangos dwylo.

iv. Ysgrifennydd: Dywedodd y Llywydd ei fod yn falch o glywed bod Shelagh Fishlock yn fodlon cymryd lle Gareth Wyn Jones, a ddymunai adael y swydd o Ysgrifennydd. Etholwyd Shelagh yn unfrydol.

v. Ysgrifennydd Aelodaeth: Ailetholwyd Dafydd Lewis yn unfrydol.

vi. Ysgrifennydd Cofnodion: Ailetholwyd Jackie Willmington drwy ddangos dwylo.

Diolchwyd i'r swyddogion uchod am eu gwaith.

## 8. ETHOL SWYDDOGION ERAILL

**Trefnyddion Gweithgareddau** :-

i. Gogledd Orllewin: - Esboniwyd bod Hywel Madog Jones a John Griffith yn rhannu'r dasg o drefnu teithiau yn y rhanbarth a thynnodd Hywel Madog sylw mai John sydd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith.

ii. Gogledd Ddwyrain: Dywedwyd bod Iwan Roberts yn fodlon parhau yn y swydd.

iii. De a'r Canolbarth: Adroddwyd bod Gareth Wyn Jones yn fodlon cymryd lle Eirian Davies, a ddymunai adael y swydd

iv. Trefnydd y Gynhadledd Flynyddol: Adroddwyd bod Elizabeth Roberts yn fodlon parhau yn y swydd.

v. Trefnydd Gwyliau Dywedwyd bod John Griffith yn fodlon parhau yn y swydd.

Etholwyd Gareth Wyn Jones ac ailetholwyd Hywel Madog Jones, John Griffith, Iwan Roberts ac Elizabeth Roberts drwy ddangos dwylo. Diolchodd y Llywydd iddynt am eu gwaith hollbwysig a diolchodd i Gareth am ei barodrwydd i ymgymryd â threfnu gweithgareddau'r De a'r Canolbarth.

## 9. GOLYGYDDION

i) Y Naturiaethwr: Dafydd Lewis

Ii Y Cylchlythyr Gwyn Roberts

Ailetholwyd y Golygyddion drwy ddangos dwylo a diolchodd y Llywydd yn fawr iddynt. Diolchodd hefyd i Haf Meredydd am roi cymorth wrth brawf-ddarllen y Cylchlythyr a thynnodd sylw y byddai Gwyn Roberts yn croesawu ychydig mwy o wirfoddolwyr i ffurfio panel o gynorthwywyr.

**10. CYNRYCHIOLWYR IS-BWYLLGORAU**

i) Llên Natur a'r Panel Enwau: Ail-etholwyd Duncan Brown drwy ddangos dwylo.

ii) Is-bwyllgor Marchnata Ail-etholwyd Hywel Madog Jones drwy ddangos dwylo.

Diolchodd y Llywydd i Duncan a Hywel Madog am eu gwaith.

**11. AELODAU ERAILL O'R PWYLLGOR GWAITH**

Ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

Rhisiart ap Gwilym
Dawi Griffiths
Dominig Kervegant
Haf Meredydd
Alan Williams
Margaret Roberts (yn rhinwedd ei swydd fel Trysorydd)

Cyhoeddwyd bod dwy aelod yn fodlon ymuno â'r Pwyllgor Gwaith. Etholwyd:-

Eurgain Jones
Elen Owen

Dywedodd yr Cadeirydd y byddai'n ddymunol gwella cynrychiolaeth o'r aelodau yn y de.

**12. ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Esboniodd Hywel Madog Jones fod anawsterau wedi codi wrth drefnu i Amanda Skull cymryd cyfrifoldeb am gyfrif banc y Gymdeithas. Dywedodd fod y banc bellach wedi cydnabod mandad Amanda a'i chofnodi fel prif gysylltiad ar gyfer cyfrif y Gymdeithas ond ni roddwyd caniatâd hyd yn hyn iddi reoli'r cyfrif ar-lein.

Esboniwyd na allai Margaret Roberts fod yn bresennol ac felly ei bod wedi anfon mantolen 2023/24 ac adroddiad a ddarllenwyd gan Amanda.

Tynnwyd sylw bod £33.5 mil wrth gefn. Cofnodwyd bod incwm, gan gynnwys incwm o'r tâl aelodaeth, wedi lleihau ers y flwyddyn flaenorol a bod gwariant, yn enwedig costau stondin yr Eisteddfod ac argraffu a dosbarthu'r cylchgronau, wedi cynyddu. Esboniwyd o ganlyniad bod gwariant 2023/24 yn £5 mil mwy nag incwm.

Esboniodd Hywel Madog Jones fod problem dechnegol wedi codi wrth geisio trefnu i'r cwmni "Pay UK" gasglu'r tâl aelodaeth drwy ddebydau uniongyrchol. Eglurodd ei bod yn bosibl bod cyfrifiadur Margaret ar fai a gobeithid y byddai Amanda'n gallu datrys y broblem ar ôl cael caniatâd i reoli'r cyfrif banc.

Diolchodd y Llywydd i Margaret, Amanda a Hywel Madog am eu gwaith.

**13. DERBYN Y FANTOLEN ARIANNOL A PHENODI'R TÂL AELODAETH**

Cytunwyd i dderbyn y fantolen drwy ddangos dwylo.

Dywedodd Hywel Madog Jones na fyddai'r Pwyllgor Gwaith argymell codi'r tâl aelodaeth yn 2025 oherwydd bod digon o arian wrth gefn a hefyd yr anawsterau ynglŷn â'r debydau uniongyrchol ond rhoddodd rybudd y byddai rhaid ail-ystyried y mater ymhen deuddeg mis.

Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Gwaith.

## 14. PENODI ARCHWILYDD ALLANOL

Cytunwyd i ganiatáu i'r Pwyllgor Gwaith benodi archwilydd allanol yn ôl y drefn arferol.

## 15. ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWAITH

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bleser adrodd i'r Gymdeithas gael blwyddyn brysur.

Nododd fod Amanda bron wedi cymryd ei lle fel Trysorydd a dymunodd y gorau i Margaret Roberts gan ddweud nad oedd ei hiechyd wedi bod yn dda.

Dywedodd bod y Pwyllgor Gwaith wedi cyfarfod pedair gwaith, unwaith yn Rhydypennau a thair gwaith yn rhithiol.

Adroddodd bod aelodau wedi mwynhau gwyliau ardderchog yn Sir Benfro.

Dywedodd fod y Gymdeithas wedi croesawu llawer o aelodau i'r stondin yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Diolchodd i Alan Williams am arwain taith a oedd yn gofiadwy oherwydd ymweliad â Chapel Eglwysbach a hefyd oherwydd glaw trwm.

Canmolodd penwythnos hir yn ardal y Fenni ym Medi gydag aelodau'n trefnu eu llety eu hunain. Nododd y cynhaliwyd pedwar taith gan gynnwys dydd dros y ffin yn Swydd Henffordd yn ymweld â hen eglwysi, er enghraifft Eglwys Sant Beuno.

Dywedodd i'r Gymdeithas gyhoeddi dau rifyn o'r Cylchlythyr ac un o'r Naturiaethwr. Nododd bwysigrwydd y cyhoeddiadau ac anogodd i aelodau gyfrannu adroddiadau am deithiau i'r Cylchlythyr ac erthyglau i'r Naturiaethwr. Dywedodd ei bod yn siomedig nad oedd cystadlu yn y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod am erthygl addas i'w chyhoeddi yn y Naturiaethwr gan atgoffa aelodau bod y Gymdeithas yn cynnig gwobr o £200.

Diolchodd i dîm Llen Natur ac i aelodau, yn enwedig Alun Williams, sydd yn cyfrannu lluniau ardderchog i dudalen Facebook Cymuned Llên Natur.

Tynnodd y Cadeirydd sylw bod y Gymdeithas yn cynnig tair taith bob dydd Sadwrn a dywedodd ei bod wedi ymuno â thaith bob wythnos. Diolchodd i'r holl aelodau, gan gynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a oedd wedi cyfrannu at waith y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn a diolchodd yn enwedig i Elizabeth Roberts am drefnu'r Gynhadledd er gwaethaf ei holl helbulon.

Gorffennodd y Cadeirydd gan ddweud ei bod yn edrych ymlaen at Gynhadledd y flwyddyn nesaf,

Diolchodd y Llywydd yn fawr i Iona am fod yn Gadeirydd mor frwdfrydig. .

## 16. UNRHYW FATER ARALL Gwyliau 2025

Gofynwyd i John Griffith roi sylw am Daith Flynyddol 2025. Dywedodd John fod trefniadau ar gyfer yr ŵyl yn ardal Mur Hadrian yn mynd rhagddi a bod 38 aelodau wedi cofrestru. Dywedodd y byddai bws ar gael drwy'r wythnos a byddai'n bosibl i gynnig dewis rhwng teithiau cerdded ac ymweliadau mwy hamddenol i leoedd o ddiddordeb. Esboniodd ei fod yn bwriadu gofyn i'r mynychwyr drwy holiadur pa rai o'r deithiau dichonol a fyddai o'r diddordeb mwyaf. Diolchodd i Gareth Wyn Jones a Jackie Willmington am eu cymorth.

Diolchodd y Llywydd i John am drefnu digwyddiad a fyddai, yn ôl y sôn, yn llawn hwyl.

## 17. Y CYFARFOD BLYNYDDOL NESAF

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Gwaith wedi trafod ailymweld ag un ai Gwesty'r Metropole yn Llandrindod neu Gwrt Bleddyn, Brynbuga. Pwysleisiodd fod croeso i aelodau gysylltu ag Elizabeth a chynnig awgrymiadau amgen. Awgrymodd y Lywydd Sir Benfro a dywedodd y Cadeirydd fod staff Llwyngwair, Trefdraeth wedi rhoi croeso cynnes i grŵp o aelodau yn y gwanwyn.